



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru – y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

Hiliol – Cymru Wrth-hiliol

Grant ymgysylltu â'r gymuned yn ystod yr ymgynghoriad: Nodyn Cyfarwyddyd i Ymgeiswyr

Mae'r canllawiau hyn wedi'u llunio i helpu sefydliadau i sicrhau eu bod yn cynnwys digon o'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu eu cais.

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (y Cynllun Gweithredu) ar gyfer ymgynghoriad 12 wythnos ar 24 Mawrth 2021 ac mae'n nodi uchelgais arloesol i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol, gan weithio tuag at greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae'r Cynllun Gweithredu yn darparu gwybodaeth ynghylch ystyr gwrth-hiliaeth, pam mai Cynllun yw hwn ac nid strategaeth, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch y themâu polisi sy'n sail i'r nodau a'r camau gweithredu.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i lunio ar y cyd gydag ystod o randdeiliaid gan gynnwys Undebau Llafur, partneriaid o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a sefydliadau, aelodau a mentoriaid cymunedol. Ei nod yw bod yn Gynllun cadarn a rhyng-gysylltiedig sy'n adlewyrchu profiadau'r rhai sydd wedi'i lunio.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 12 o themâu polisi sy'n sail i nodau a chamau gweithredu lefel uchel. Mae'r themâu wedi'u hamlinellu isod:

1. Tai a llety
2. Swyddi ac incwm (cyfeirir at y rhain fel Incwm a Chyflogaeth yn nes ymlaen)
3. Iechyd (corfforol a meddyliol) a gofal cymdeithasol
4. Addysg, gan gynnwys addysg uwch
5. Troseddu a Chyfiawnder
6. Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth
7. Diwylliant, y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth
8. Democratiaeth leol

9. Y Gymraeg

10. Yr amgylchedd (er mewn ffordd gyfyngedig am y tro)

11. Y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ac Entrepreneuriaeth fel rhan o Incwm a Chyflogadwyedd

12. Materion trawsbynciol

Mae'r Cynllun Gweithredu yn gynhwysfawr ond bydd crynodeb, fersiwn hawdd ei deall, fersiwn i bobl ifanc a fersiwn laith Arwyddion Prydain ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir cael fersiwn Braille ar gais.

Gwybodaeth am y Grant

Mae'r cyfle ariannu hwn wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei gynnal gydag ystod eang o bobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru (gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mudwyr a ffoaduriaid). Nod y grant yw darparu cyfleoedd i ehangu'r ddeialog ynghylch creu Cymru wrth-hiliol a'r nodau polisi a'r camau gweithredu penodol a gynigir yn y Cynllun Gweithredu. Mae'n adeiladu ar y cyllid ymgysylltu â'r gymuned a ddarparwyd yn 2020 i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu.

Mae'r grant tymor byr hwn wedi'i greu i ariannu gweithgareddau ymgynghori uniongyrchol gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru. Diben y grant yw sicrhau bod cyfleoedd ymgynghori ar gael i bob cymuned a grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel bod modd iddynt allu ymateb i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Drwy'r grant hwn rydym am wybod beth mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ei feddwl o'r Cynllun a'r nodau a'r camau gweithredu sydd ynddo.

Mae'r grant hwn ar gael i'r trydydd sector, neu i grwpiau neu sefydliadau cymunedol sy'n arbenigo mewn cefnogi cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu weithio neu ymgysylltu â nhw.

Ein nod yw sicrhau bod ein gwaith yn cyrraedd pob cwr o Gymru drwy gyfres o geisiadau llwyddiannus. Nid oes angen i geisiadau unigol gynnig cwmpas cenedlaethol, gallant ymwneud â chymuned neu ardal benodol.

Gellir cynnal digwyddiadau ymgysylltu drwy amrywiaeth o ieithoedd.

Gall gweithgareddau ymgynghori hefyd ymwneud yn benodol ag un o'r themâu polisi. Er enghraifft, gweithgaredd ymgynghori sy'n canolbwyntio'n benodol ar thema addysg y Cynllun.

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar y grwpiau a restrir isod. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac rydym yn croesawu ceisiadau sy'n gysylltiedig â chymunedau eraill hefyd:

- Menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Mamau beichiog

- Pobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Cymunedau a phobl anabl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Cymunedau a phobl LHDT+ Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau o hyd at £4,999 i sefydliadau a grwpiau cymunedol cymwys. Byddwn yn ystyried ceisiadau unigol a chyfunol ar gyfer y grant hwn.

Rhaid i weithgareddau a ariennir ddigwydd yng Nghymru ac rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau ymgysylltu ddigwydd ar-lein (o ganlyniad i'r gofynion cadw pellter cymdeithasol parhaus). Er hynny, rydym yn croesawu dulliau creadigol o ymgysylltu â chymunedau hefyd.

Rhaid i'ch ceisiadau unigol neu gydweithredol fodloni'r meini prawf a ganlyn:

- Dangos eich gallu i ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gwrando arnynt, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiadau rhyng-gysylltiedig, yn erbyn cwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad A neu themâu polisi y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Yn eich cais, rhaid i chi amlinellu sut y byddwch yn ymgysylltu â chymunedau a pha brofiad blaenorol o ymgysylltu â chymunedau sydd gennych.

Mewn cynllun grant ymgysylltu blaenorol, cynhaliodd ymgeiswyr llwyddiannus ddigwyddiadau ymgysylltu drwy grwpiau ffocws ar-lein, digwyddiadau ar-lein, arolygon a fideos. Ni fyddwn yn cyfyngu ar sut y cynhelir digwyddiadau ymgysylltu cyhyd ag y gellir dangos eu bod yn cyrraedd pobl ac yn gallu casglu'r wybodaeth.

- Rhaid i chi amlinellu'r hyn y bydd eich gweithgaredd ymgysylltu yn canolbwyntio arno. Rydym yn argymhell y dylai gyd-fynd â'n cwestiynau ymgynghori, sydd i'w gweld yn Atodiad A. Byddwn yn ystyried cynigion sy'n ehangach na chwestiynau'r ymgynghoriad ond rhaid iddynt ddangos sut y maent yn gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r themâu polisi. Os byddwch yn dewis ymgynghori ar un o'r themâu polisi, rhaid i'ch cais nodi pa thema y byddwch yn ymgynghori arni a'r rhesymau dros hynny. Er enghraifft, os byddwch yn dewis ymgynghori ar y nodau a'r camau gweithredu sy'n ymwneud ag iechyd, rhaid ichi roi rhesymau dros ddewis y thema honno.
- Y gallu i lunio cofnod cywir o'ch sesiwn ymgysylltu, a allai fod yn ymateb ysgrifenedig neu lafar. Dylai eich cais ddangos eich profiad blaenorol o adrodd ar safbwyntiau cymunedau.
- Y capasiti o ran adnoddau i allu cyflawni'r gweithgaredd ymgysylltu erbyn 17 Mehefin 2021. Fel rhan o'ch cais dylech amlinellu'r adnoddau y byddwch yn eu hymrwymo i'r gweithgaredd hwn, gan ddarparu amserlen arfaethedig ar gyfer y gweithgaredd. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymateb i'r ymgynghoriad gael ei gyflwyno erbyn 24 Mehefin 2021.

Gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr

Lluniwch gynnig, **hyd at bedair ochr o bapur A4**, sy'n nodi sut y caiff yr arian ei ddefnyddio i ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru a'u cynnwys yn y broses ymgynghori, gan ystyried y meini prawf uchod.

Yn ogystal â hyn, dylech roi dadansoddiad o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gweithgaredd yn eich cynnig.

Nodwch hefyd i ba un o'r pedwar categori daearyddol canlynol y mae gweithgaredd eich cynnig yn perthyn iddo (sylwer, mae awdurdodau lleol wedi'u rhestru i egluro ffiniau rhanbarthol, nid oes angen i geisiadau ddangos gweithgareddau penodol ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth hwnnw).

- Cymru gyfan
- Gogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam)
- Canolbarth a Gorllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys)
- De Cymru (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Abertawe, Caerdydd, Merthyr, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg)

Trefniadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, arfarnu a hysbysu

Dylid cyflwyno pob cais drwy e-bost i equalitybranch@gov.wales erbyn **10am ar 19 Ebrill 2021** fan bellaf.

Bydd sefydliadau yn cael gwybod am ganlyniad eu cais erbyn canol mis Mai 2021. Rydym yn rhagweld mai diwedd mis Mai 2021 fydd dyfarniadau'n cael eu gwneud i ganiatáu i weithgareddau ddechrau.

Bydd ceisiadau'n cael eu harfarnu gan banel asesu. Bydd y panel yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru sydd â phrofiad o'r trydydd sector ac o gynigion prosiect mewn perthynas â pholisi cydraddoldeb, a pherson annibynnol Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol sydd â phrofiad o waith o'r math hwn (ni fyddant yn gysylltiedig ag unrhyw gais). Bydd y panel yn asesu ac yn sgorio ceisiadau yn erbyn y meini prawf a nodir yn y nodyn cyfarwyddyd hwn.

Bydd ceisiadau'n cael eu trefnu fesul cymuned yn ogystal â rhyngblethedd a themâu polisi. Byddant yn cael eu rhestru yn nhrefn y sgôr a roddir iddynt gan y panel. Er mwyn sicrhau cwrmpas daearyddol, bydd o leiaf un cais sy'n perthyn i bob categori daearyddol (a restrir uchod) yn cael ei ddewis ar gyfer argymhelliad.

Bydd canlyniadau'r broses o asesu'r ceisiadau yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar ariannu.

Dyfernir cyllid grant i sefydliadau yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu briffio cyn dechrau ar eu gweithgareddau ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y nodyn cyfarwyddyd hwn, anfonwch nhw at y tîm cydraddoldeb: equalitybranch@gov.wales.